# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1512(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At Nick Bourne:**

Yr wyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch cwestiynau atodol i OAQ1512 ar 9 Mai 2006 ynghylch yr hyn fu yn y cyfryngau yn ddiweddar ynghylch recriwtio prifathrawon yng Nghymru. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ddatganiad Cabinet ysgrifenedig ar benodi prifathrawon yng Nghymru.

Gyda golwg ar y gormodedd o athrawon ysgol gynradd sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghymru, yr oedd y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd o'r cyfrifiad ysgolion yn awgrymu bod 22 cais wedi'u derbyn ar gyfer pob swydd ysgol gynradd a hysbysebwyd yn y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2004. Ar y lefel uwchradd, mae llai o geisiadau mewn rhai pynciau, ond, ar y cyfan, rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2004, cafwyd bron i naw cais am bob swydd a hysbysebwyd.

Mae gennym athrawon nad ydynt yn dymuno gweithio dros y ffin ond sy'n methu sicrhau swyddi parhaol yng Nghymru. Mae gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion dros lawer blwyddyn yn debygol iawn. O ddeall hyn, gostyngwyd targedau derbyn ymgeiswyr ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon gennym am ddwy flynedd yn olynol a sefydlwyd adolygiad ffurfiol, dan arweiniad yr Athro John Furlong, i weld sut y gallwn, yn y dyfodol, gysoni'r cyflenwad athrawon ag anghenion yr ysgolion yng Nghymru.

Derbyniwyd canlyniad yr adolygiad hwnnw yn sail i weithio arni, ar yr amod bod dadansoddi manwl yn parhau. Casgliad yr adolygiad oedd bod angen i'r nifer a dderbynnir i wneud cwrs HCA cynradd gael ei haneru erbyn 2010-11 o'i gymharu â 2004-05, ac i'r nifer ar gyfer HCA uwchradd ostwng 25 y cant. Daeth y prif randdeiliaid i'r casgliad bod gostyngiadau ar y raddfa hon yn gywir ar y cyfan.

Yr ydym wedi llofnodi'r cytundeb ynghylch llwyth gwaith ysgolion a gafodd ei negodi rhwng undebau'r prifathrawon, yr athrawon a staff cymorth yr ysgolion, a llywodraeth leol a chanolog ac yr ydym wedi llunio cynllun i ostwng llwyth gwaith yr ysgolion, gan beri bod yr athrawon yn cael canolbwyntio ar addysgu a dysgu eu disgyblion a chan wella cydbwysedd bywyd a gwaith i dîm cyfan yr ysgol.

Rhan bwysig o hyn oedd sefydlu'r panel cynghori ar lwyth gwaith ysgolion. Ymarferwyr yw'r rhain a benodwyd o ysgolion yng Nghymru a'u cylch gorchwyl yw codi ymwybyddiaeth ynghylch goblygiadau llwyth gwaith ymhlith pawb sydd â rhan mewn datblygu polisïau a'u rhoi ar waith yn ein hysgolion, a rhoi cyngor ar sut y gellir dileu neu leihau ergyd fiwrocratig unrhyw fentrau.

Mae'r panel wedi datblygu perthynas gynhyrchiol iawn â swyddogion amryw o sefydliadau ac maent wedi bod yn ymdrechu i ddylanwadu ar bolisïau a dulliau gwaith a chael effaith buddiol ar lwyth gwaith prifathrawon. Mae ei adroddiad blynyddol a welir ar http://www.swapwales.co.uk/ yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu i'r dyfodol.

Mae ein swyddogion yn parhau i weithio gyda'r rhai a lofnododd y cytundeb llwyth gwaith a chydag undebau sydd heb ei lofnodi, megis yr NAHT, i sicrhau ein bod ni yng Nghymru'n elwa'n llawn ar y cytundeb.

Hyderaf y bydd hyn yn ateb eich pryderon ynghylch materion recriwtio a llwyth gwaith sydd yn effeithio ar y proffesiwn yng Nghymru.